

# Digimap for Schools

## Archwilio'r Geiriadur Daearyddol

Alan Parkinson

### Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2-4



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

### Teitl: Archwilio'r Geiriadur Daeryddol

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2-4	Archwilio pwysigrwydd a defnyddioldeb y geiriadur enwau lleoedd.	Prydain Fawr

Gwybodaeth	Ymchwilio swyddogaeth / geiriaduron daeryddol
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Archwilio lleoliad lleoedd, llwybrau ar fapiau, adeiladu ar wybodaeth am globau, mapiau ac atlasau a datblygu a gweithredu'r wybodaeth hon
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio atlasau, mapiau a chynlluniau. Defnyddio gwahanol fathau o fapiau a mapiau o wahanol raddfeydd, ynghyd â TGCh i ddehongli gwybodaeth am leoliadau
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 1.14a, 2.14a

## Gweithgaredd

Dyma weithgaredd defnyddiol annibynnol a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn deall swyddogaeth y geiriadur daeryddol, yn gymwys o ran **Pori** ac yn gwybod pa ddewis chwilio i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau gwahanol.

## Cyflwyniad

Mae geiriadur enwau lleoedd *Digimap for Schools* yn cynnwys enwau o gyfres mapiau *Landranger* yr Arolwg Ordnans ar raddfa 1:50 000. Mae'r 250,000 o enwau yn cynnwys dinasoedd, trefi, pentrefi, mynyddoedd, ffermydd, llynnoedd a chulforoedd. Mae'r geiriadur daeryddol hwn yn llawer mwy cynhwysfawr na'r rheiny yng nghefn y rhan fwyaf o atlasau ym Mhrydain Fawr (pan gafodd y geiriadur daeryddol ei argraffu fel llyfr, roedd yn cynnwys 796 o dudalennau ac yn pwysu 2.3 cilogram!).

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Mae'n bosibl pori trwy'r geiriadur daearyddol mewn tair ffordd:

- 1 **Enw lle:** pan fyddwch yn mewnbynnu enw lle, bydd y map yn closio at yr ardal honno, ond os oes yna fwy nag un dewis, bydd blwch yn ymddangos yn cynnwys rhestr o leoedd i chi allu dewis y lle cywir. Nid oes rhaid i chi fewnbynnu'r enw cyfan, sy'n hynod ddefnyddiol os nad ydych yn siŵr sut i'w sillafu. Bydd y rhestr o ganlyniadau yn aros ar y sgrin tan y byddwch yn ei chau, gan gynnig y dewis i chi allu newid eich meddwl.

NID yw'r geiriadur daearyddol yn cynnwys adeiladau nac enwau strydoedd, felly os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r lle rydych yn chwilio amdano, ceisiwch chwilio am y dref neu bentref mawr agosaf.

- 2 **Cod Post:** nid oes rhaid cynnwys bwlch rhwng hanner cyntaf ac ail hanner y codau post. Gan chwilio trwy god post, bydd y map yn closio ar raddfa o 1:5 000 at ganol ardal y cod post.



- 3 **Cyfeirnod Grid:** gallwch fewnbynnu cyfeirnod grid o hyd at 10 ffigwr (rhaid cynnwys y llythrennau rhagddodol).

Am gymorth ac esboniad lawn o'r ffordd mae'r Porwr yn gweithio, cliciwch ar y botwm **HELP**.

## Prif weithgaredd

Mae'r tasgau canlynol yn cynnwys awgrymiadau i helpu disgyblion i geisio pob ffordd wahanol o chwilio am leoedd a deall pa un sy'n gweddu orau ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol.

### 1 Pori enw lle

Dyma argymhellion ar gyfer 'helfeydd trysor' neu 'degau uchaf' â themâu penodol...

- Saffari drefol – dewch o hyd i leoedd sydd wedi'u henwi ar ôl anifeiliaid, neu sy'n cyfeirio at anifeiliaid, er enghraifft, Cat's Bottom ger King's Lynn yn Norfolk a Dog's Bones ar Ynys Orkney.
- O dan y môr – dewch o hyd i leoedd sydd wedi'u henwi ar ôl creaduriaid y môr.
- Dewch o hyd i enwau bechgyn neu ferched.
- A-Z – nodwch leoedd fesul llythrennau'r wyddor. Rhowch bwyntiau i bwy bynnag sy'n gallu dod o hyd i bob llythyren sydd agosaf at yr ysgol.
- Bwyd a diod – lleoedd sydd â chysylltiad â bwyd.
- Lleoedd enwog, er enghraifft lleoedd sy'n rhannu enw â rhywun enwog, boed yn rhywun enwog, yn gerddor neu'n unigolyn o'r byd chwaraeon.

Faint o enwau o wledydd eraill sy'n cael eu hadlewyrchu gan fapiau arolwg ordnans Prydain Fawr? Oes unrhyw un yn gallu awgrymu pam fod rhai gwledydd yn fwy poblogaidd nag eraill?

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## 2 Pori fesul codau post

Mae pori fesul cod post yn gynt os ydych eisiau dod o hyd i dŷ neu stryd.

- Sicrhewch fod y disgyblion yn gallu dod o hyd i'w cartrefi eu hunain gan ddefnyddio'u codau post.
- Cyflwynwch y disgyblion i borwr codau post y Post Brenhinol er mwyn iddynt allu deall sut i ddod o hyd i god post os nad ydynt yn ei wybod yn barod (cyfeiriwch at y ddolen isod). Paratowch restr o leoedd (ar ddiwrnod blaenorol er mwyn osgoi defnyddio gormod o chwiliadau) i'r disgyblion chwilio amdanynt cyn mewnbynnu'r cod post i *Digimap for Schools* er mwyn dod o hyd i fap o'r lle

hwnnw. Er enghraifft, Palas Buckingham, stadiwm pêl-droed ac adeilad y Shard yn Llundain.

- Darparwch restr o godau post a rhestr o enwau lleoedd ar wahân. Mae croeso i'r rhestr fod yn fyr neu'n hir, ond dylai fod yn berthnasol i'ch myfyrwyr. Un ai rhannwch y disgyblion yn grwpiau a'u herio nhw i weld pwy sy'n gallu paru'r rhestrau gyflymaf, neu mae'n bosibl gosod y dasg fel gwaith cartref. Gallwch gynnwys codau post lleoedd yn yr ardal leol, er enghraifft sinema, archfarchnad, eglwys neu gapel, ysgol, adeilad amlwg, fferm, ystad dai ac yn y blaen.

## 3 Pori yn ôl cyfeirnodau grid

Mae chwiliadau cyfeirnodau grid yn ddefnyddiol pan rydych eisoes wedi nodi cyfeirnod grid lleoliad, neu phan nad oes gan y lle rydych yn chwilio amdano gyfeiriad neu os ydyw wedi'i leoli ar wahân i aneddleoedd. Cyfeirnod grid yw'r dull mwyaf cywir o ddod o hyd i leoedd.



Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp. Bydd y ddau grŵp yn dod o hyd i gyfeirnodau grid ar gyfer nodweddion map mewn ardaloedd gwledig neu fynyddig gan ddefnyddio'r offeryn cyfeirnod grid a nodi'r ateb o ran eu lleoliad; er enghraifft, copa Ben Nevis. Wedyn, bydd y grwpiau'n cyfnewid y cyfeirnodau grid yn unig ac yn ceisio dod o hyd i'r lleoedd gan ddefnyddio'r porwr cyfeirnodau grid.

### Mynd ymhellach

Dylai pob disgybl ysgol uwchradd ddeall sut mae cyfeirnodau grid yr Arolwg Ordnans yn gweithio. Os oes angen eu hatgoffa, cyfeiriwch at yr esboniad fideo a'r wybodaeth (wele'r dolenni).

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Dolenni

Mae **blog yr Arolwg Ordnans** yn cynnwys ystod o ddarnau sy'n archwilio enwau lleoedd mewn perthynas â themâu penodol, ac mae'n werth chweil dilyn y blog er mwyn gweld y syniadau diweddaraf; mewnbynnwch 'gazetteer' yn y porwr er mwyn dod o hyd i ddarnau perthnasol ynghylch enwau lleoedd. <http://blog.ordnancesurvey.co.uk/>

Mae'r Post Brenhinol yn caniatáu 50 chwiliad cod post rhad ac am ddim bob dydd:  
[www.royalmail.com/postcode-finder](http://www.royalmail.com/postcode-finder)

Deall mwy am godau post: [http://en.wikipedia.org/wiki/Postcodes\\_in\\_the\\_United\\_Kingdom](http://en.wikipedia.org/wiki/Postcodes_in_the_United_Kingdom)

Cyflwyniad rhyngweithiol i ddefnyddio'r Grid Cenedlaethol:  
<http://www.ordnancesurvey.co.uk/docs/support/guide-to-nationalgrid.pdf>

Cyflwyniad i'r Grid Cenedlaethol gan ddefnyddio *Digimap for Schools*:  
<http://digimapforschools.edina.ac.uk/cosmo/help?page=grid>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin